# Harbwr Diogel 2
# Calm Waters 2



Gwybodaeth

Information

aln@ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Harbwr Diogel 2




**Mae harbyrau Cyngor Sir Ceredigion yn Aberaeron, Aberystwyth a Chei Newydd yn adnoddau gwych ac yn atyniadau o'u rhan eu hunain. Er mwyn gwneud yn siŵr bod pethau'n dawel yn yr harbyrau a'u bod yn parhau'n ddiogel, yn ddeniadol ac yn ddymunol i bawb rydym yn atgoffa'r defnyddwyr o rai pethau allweddol y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt, a'u bod yn eu gweithredu.**

### Cofiwch:

1. Fod yn ystyriol a pharchus bob amser tuag at holl ddefnyddwyr eraill yr harbyrau a'r cyhoedd.
2. Bod yn ystyriol a pharchus bob amser tuag at fywyd gwyllt lleol, a'ch bod yn ei werthfawrogi.
3. Gwneud yn siŵr bod eich cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ei fod mewn cyflwr da ac yn addas at y defnydd ohono. Mae hyn yn cynnwys angorau a rhaffau arnofiol. Dylech wirio'r rhain i gyd yn rheolaidd.
4. Ymdrin â'ch holl wastraff yn gyfrifol ac yn gyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys ac yn rhychwantu offer pysgota wedi'i ddefnyddio i olew gwastraff.
5. Storio'r holl gyfarpar yn ddiogel ac mewn man priodol. Mae hyn yn cynnwys cychod tendio, bwiau, potiau ac offer pysgota arall.
6. Peidio ag achosi rhwystr neu niwsans naill ai ar ochr sych nac ochr wlyb yr harbyrau. Mewn argyfwng, gallai mynediad clir fod yn hanfodol. Dylech barcio ceir yn unol â threfniadau'r lle a'r ddarpariaeth sydd yno.
7. Ymateb yn gadarnhaol i gyngor neu gyfarwyddyd a roddir gan unrhyw un o staff yr Harbyrau.
8. Codi unrhyw fater, pryder neu awgrym a all fod gennych gyda staff yr Harbyrau ar y cyfle cyntaf. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar unrhyw wendid neu ddifrod y gallwch ddod yn ymwybodol ohonynt ar yr harbyrau.
9. Cysylltu â 999 mewn unrhyw fath o argyfwng.

**Rheolir yr Harbyrau yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.**

- Gellir dod o hyd i Bolisi Rheoli Harbyrau Ceredigion,
- Is-ddeddfau,
- Cyrsiau a Phellteroedd Morwrol,
- Tablau Llanw Lleol,
- Arfordir Treftadaeth Forol Ceredigion, Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion ac Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau,
- Anifeiliaid Morol yn Sownd ar Lan y Môr, a
- Diogelwch


  yn: Yr Arfordir a Phorthladdoedd

**Dylai Defnyddwyr Harbyrau ymgyfarwyddo â'r wybodaeth hon a gwneud yn siŵr eu bod yn ymddwyn yn unol â hyny bob amser'.**

**Diweddariadau:**

### (1) Penodi Rheolwr Harbyrau Newydd.

Ddechrau Mehefin 2021, bu'n bleser gan Gyngor Sir Ceredigion benodi Owen Morgan, swyddog morol proffesiynol a chyn Swyddog yr Wylfa gyda'r Llynges Fasnachol, i'r swydd newydd, Rheolwr Harbyrau.



*Owen ar wyliadwriaeth angor ar bont lywio yr M.V. Pacific Aria yn Ffiji.*

Yn sgil ei brofiad, mae Owen wedi bod i nifer o borthladdoedd a harbyrau ar draws y byd ac, yn fwy diweddar, gwasanaethodd yn 3ydd Swyddog ar longau mordeithio a fferïau. Bachgen lleol yw Owen ac mae'n awyddus iawn i gael effaith gadarnhaol ar yr harbyrau drwy fodloni gofynion a disgwyliadau'r amryw ddefnyddwyr harbyrau a rhanddeiliaid eraill.

Mae Owen yn mwynhau ei swydd newydd yn fawr ac wedi gweld bod Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion yn ddogfen arbennig o ddefnyddiol sy'n ei gefnogi ac yn sail i'w ddull o fynd ati i reoli'r harbyrau o ddydd i ddydd.

### (2) Cyfarfodydd y Pwyllgor Defnyddwyr Harbyrau.

Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Defnyddwyr Harbyrau ddwywaith y flwyddyn fel rheol ond bu'n rhaid eu gohirio yn y blynyddoedd diweddar oherwydd pandemig COVID-19. Wrth symud ymlaen, mae'r Cyngor yn ystyried trefniadau rhithiol gwahanol ar gyfer fforymau fel hyn. Er hynny, rydym yn awyddus i gadw cyswllt rheolaidd a pharhaus gyda rhanddeiliaid ac mae'r cyhoeddiad hwn, *Harbwr Diogel*, yn fodd o roi diweddariad ar weithgareddau yn yr harbyrau. Gall rhanddeiliaid gysylltu'n rhwydd â'r Tîm Gwasanaethau Harbyrau drwy Clic, gwasanaeth cwsmeriaid y Cyngor, gan ddefnyddio'r manylion isod.

### (3) Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladdoedd.

Mae'r Tîm Gwasanaethau Harbyrau wedi bod yn gweithio gydag Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau i adolygu ein Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladdoedd. Ein nod yw datblygu a gweithredu cynllun cydsyniol sy'n rhoi cyfleusterau gwastraff priodol a digonol i ddefnyddwyr harbyrau. Bydd y Cynllun yn helpu i gadw ein harfordir hardd yn lân ac yn glir o wastraff.  Bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi a'i rannu gyda'r defnyddwyr harbyrau yn y misoedd nesaf.

## (4) Glanhau.

Mae dyletswydd ar y rhai sy'n cynhyrchu gwastraff i ymdrin ag ef yn gyfrifol ac yn gyfreithlon. I gefnogi hyn, trefnodd y Tîm Gwasanaethau Harbyrau ddiwrnodau glanhau yn ystod yr hydref a gafodd effaith arwyddocaol ar wella glendid yr harbyrau. Mae hyn yn fuddiol o safbwynt amgylcheddol a gweithredol ac o ran estheteg a iechyd a diogelwch.

Mae'r Tîm Gwasanaethau Harbyrau am ddiolch i bawb a fu'n cynorthwyo gyda'r gwaith glanhau yn ystod yr hydref ac, fel rhan o Caru Ceredigion, hoffai annog pawb i wneud ei ran wrth gadw'r harbyrau yn lân a diogel.

## (5) Polisi Rheoli Harbyrau.


Bwriedir dechrau ar y gwaith o adolygu Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion. Bydd y gwaith hwn yn ystyried adborth a dderbyniwyd yn ogystal â dangos y newidiadau a fu a'r profiadau a gafwyd ers i'r Polisi cyfredol gael ei fabwysiadu a'i gymeradwyo yn 2013. Bydd y Polisi newydd yn destun ymgynghoriad cyn y caiff unrhyw newid ei fabwysiadu.

## (6) Trosglwyddo'r Wyliadwriaeth.

Yn 2021, ymadawodd dau o hoelion wyth Tîm Gwasanaethau Harbyrau Cyngor Sir Ceredigion.

Ymddeolodd yr Is-gomander Peter Norrington-Davies, Harbwrfeistr Ceredigion ar droad y flwyddyn ac, ym mis Gorffennaf, ymddeolodd Peter Evans, y Cynorthwyydd Harbwr a oedd wedi'i leoli yn Aberaeron.


Bu'r ddau yn driw iawn i'r gwasanaeth am nifer o flynyddoed ac roeddent yn uchel iawn eu parch.  Hoffem ddiolch yn fawr iddynt am eu hymdrechion a dymuno ymddeoliad iach, hir a hapus iddynt.



*Peter Norrington-Davies yn Swyddfa Harbwr Aberystwyth yn y blynyddoedd cynnar, Awst 1999.*



*Peter Norrington-Davies yn Swyddfa Harbwr Aberystwyth yn ystod rhan olaf ei yrfa hir.*



*Peter Evans yn Swyddfa Harbwr Abaeraeron gyda Chyflwynwydd Loose Women, y ddiweddar Lynda Bellingham.*

### (7) Amddiffyn Arfordir Aberaeron.

Trefnwyd gwneud y gwaith ar Gynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron yn ystod gwanwyn 2022. Bydd gwelliannau i'r harbwr yn rhan o'r cynllun a fydd yn fuddiol i'r dref a'r harbwr gan y bydd yn gwarchod cychod a llongau, asedau, eiddo a busnesau lleol rhag yr elfennau.

### (8) Carthu.

Mae gwaith carthu ar bob un o'r Harbyrau yn cael ei drefnu ar hyn o bryd ar gyfer Mawrth 2022. Bydd rhybudd lleol yn cael ei roi i forwyr a rhanddeiliaid priodol a bydd yn cael ei arddangos ar bob un o Swyddfeydd yr Harbyrau.

### Adborth.

Rydym yn croesawu ac yn annog adborth adeiladol gan randdeiliaid bob amser. Cysylltwch â ni dros **e-bost, drwy clic@ceredigion.gov.uk neu drwy ffonio 01545 570881.**

Gallai'r dogfennau gael eu diweddaru ac felly dylech fwrw golwg arnynt yn rheolaidd.

**Y Tîm Harbyrau**

*Owen Morgan MNI, Rheolwr Harbyrau*

*Roy Fenner, Cynorthwyydd Harbyrau*

*Nigel Wells, Cynorthwyydd Harbyrau*



*Roy Fenner*



*Nigel Wells*



*Owen Morgan*

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion

# Harbwr Diogel 2

# Calm Waters 2



www.ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council